OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3158

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004

**Cynigion y mae'n ofynnol cynnal refferendwm arnynt**

**8.**—(1) Os canlyniad refferendwm a gynhaliwyd yn rhinwedd rheoliad 5 yw gwrthod y cynigion a oedd yn destun y refferendwm, rhaid i'r awdurdod lleol —

(a) peidio â rhoi'r cynigion hynny ar waith; a

(b) os yw'r awdurdod lleol yn gweithredu —

(i) trefniadau gweithrediaeth presennol (fel y maent wedi'u crynhoi yn ei gynigion amlinellol wrth gefn), parhau i weithredu'r trefniadau presennol hynny hyd nes yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol neu y gwneir yn ofynnol iddo eu gweithredu neu yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau amgen yn lle ei drefniadau gweithrediaeth presennol(**1**);

(ii) trefniadau amgen presennol (fel y maent wedi'u crynhoi yn ei gynigion amlinellol wrth gefn), rhaid iddo barhau i weithredu'r trefniadau presennol hynny hyd nes yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau amgen gwahanol neu hyd nes yr awdurdodir ef i weithredu trefniadau gweithrediaeth yn lle ei drefniadau amgen presennol neu y gwneir yn ofynnol iddo eu gweithredu(**2**).

(2) Os canlyniad refferendwm a gynhaliwyd yn rhinwedd rheoliad 5 yw cymeradwyo'r cynigion a oedd yn destun y refferendwm, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r cynigion hynny ar waith yn unol â'r amserlen a gynhwysir yn y cynigion.

(**1**) *Gweler,* yn benodol, adrannau 30 a 33 i 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
(**2**) *Gweler*, yn benodol, adrannau 33 i 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.